Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol 2011

Ateb eich cwestiynau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Etholiad y Cynulliad Cenedlaethol 2011
Ateb eich cwestiynau

Ar 05 Mai 2011, cewch gyfle i bleidleisio dros bwy ddylai eich cynrychioli fel Aelodau'r Cynulliad yn eich barn chi pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal etholiad.

Bwriad y ddogfen hon yw ateb eich cwestiynau i sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Rydym wedi gosod y cwestiynau mewn grwpiau o dan y meysydd pwnc a ganlyn:

Cwestiynau cyffredinol	02
Diddymu	06
Ar ôl yr etholiad	10
Cyflog Aelodau'r Cynulliad	12
Pleidleisio	13

Sawl Aelod Cynulliad sydd?

Mae 60 o Aelodau Cynulliad etholedig.

Sut y caiff Aelodau'r Cynulliad eu hethol?

Mae gan bawb yng Nghymru bum Aelod Cynulliad yn eu cynrychioli – un ar gyfer yr etholaeth lle rydych yn byw a phedwar yn cynrychioli'r rhanbarth lle rydych yn byw.

Pan fyddwch yn pleidleisio mewn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd gennych ddwy bleidlais – un i ethol eich aelod etholaethol ac un i ethol eich aelodau rhanbarthol (dros Ogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Dwyrain De Cymru, Gorllewin De Cymru neu Ganol De Cymru).

Pam bod angen i mi bleidleisio ddwywaith: unwaith ar gyfer fy etholaeth ac unwaith ar gyfer fy rhanbarth?

Mae 40 etholaeth yng Nghymru, a'r ymgeiswyr sy'n ennill y nifer fwyaf o bleidleisiau ymhob etholaeth a gaiff eu hethol. Dyma'r system "cyntaf i'r felin" – y system a ddefnyddir ar hyn o bryd i ethol Aelodau Seneddol yn San Steffan.

Caiff Aelodau Cynulliad rhanbarthol eu dewis drwy fath o gynrychiolaeth gyfrannol. Rhaid i bob plaid wleidyddol ddarparu rhestr o ymgeiswyr i sefyll fel Aelodau Cynulliad rhanbarthol, wedi'u rhestru yn nhrefn blaenoriaeth. Gall ymgeiswyr annibynnol sefyll hefyd. Dewisir pedwar ymgeisydd yr un ar gyfer pob un o'r pum rhanbarth, yn seiliedig ar fformiwla sy'n ystyried nifer y seddau etholaethol y mae plaid wleidyddol eisoes wedi'u hennill.

Pam y cynhelir etholiadau Cynulliad?

Mae pob Cynulliad yn parhau am bedair blynedd, ac mae angen ethol Aelodau ar gyfer pob Cynulliad.

Pa mor aml y cynhelir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru?

Cynhelir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru pob pedair blynedd. Disgwylir i'r etholiad nesaf gael ei gynnal ym mis Mai 2011.

A yw Cynulliad yn parhau am bedair blynedd yn union?

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan y dylid cynnal etholiad Cynulliad ddydd Iau cyntaf mis Mai bob pedair blynedd. Fodd bynnag, mae gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru'r pŵer i newid dyddiad yr etholiad hyd at fis cyn neu ar ôl y dyddiad hwn.

A fyddaf yn gallu pleidleisio dros fy Aelod Cynulliad yn yr etholiad?
Byddwch, os ydych wedi'ch cofrestru i bleidleisio yng Nghymru. Mae angen i chi fod ar y gofrestr etholwyr i bleidleisio mewn etholiadau a refferenda yng Nghymru. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut i gofrestru a phleidleisio ar wefan "Fy Mhleidlais i" yn www.fymhleidlaisi.co.uk

Ai dydd Iau yw'r unig ddydd y gellir cynnal etholiad?
Na. Fodd bynnag, mae bellach yn draddodiad cynnal etholiadau ar ddydd Iau.

A yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y DU yn rhannu Cymru yn ôl yr un 40 etholaeth ?
Ar hyn o bryd, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod y 40 sedd etholaethol ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yr un peth â'r rhai ar gyfer etholiadau San Steffan. Fodd bynnag, mae Llywodraeth newydd y DU yn cynnig lleihau nifer y seddau yn y Senedd ac mae'n debygol y bydd nifer y seddau ar gyfer Cymru yn cael ei dorri.

A oes map o etholaethau a rhanbarthau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael?
Oes. Gallwch gael copi o'r wefan drwy ddilyn y linc a ganlyn:
www.cynulliadcymru.org/memhome/member-search.htm

Ble y gallaf ddod o hyd i gyfarwyddiadau ar sut y cynhelir etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?
Darperir cyfarwyddiadau ar gyfer y cyhoedd, ymgeiswyr a swyddogion etholiadol gan y Comisiwn Etholiadol. Cyhoeddir y cyfarwyddiadau hyn ar wefan y Comisiwn Etholiadol yn y misoedd cyn yr etholiad. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Mae'r comisiwn yn pennu'r safonau ar gyfer cynnal etholiadau ac yn adrodd yn ôl ar yr etholiadau a gynhelir. Prif amcan y Comisiwn Etholiadol yw cynyddu hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd.

Pwy sy'n gyfrifol am ariannu etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?
Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Darperir arian i awdurdodau lleol sy'n trefnu etholiadau yn eu hardaloedd.

Pwy sy'n gymwys i bleidleisio yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Crëwyd y wefan "Fy Mhleidlais i" gan y Comisiwn Etholiadol i ddarparu gwybodaeth am bleidleisio. Er mwyn cofrestru i bleidleisio, rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn (ond ni allwch bleidleisio nes eich bod yn 18 oed) ac yn ddinesydd y DU neu Gweriniaeth Iwerddon. Gall dinasyddion cymwys y Gymanwlad hefyd gofrestru. I gymhwyso, rhaid i ddinasyddion y Gymanwlad gael caniatâd i ddod i mewn i'r DU ac i aros yn y DU, neu ni ddylai fod angen caniatâd o'r fath arnynt; neu rhaid iddynt fod yn ddinesydd un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd sy'n byw yn y DU; dinesydd Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Diriogaeth Dramor Prydeinig, sy'n byw yn y DU. Mae'r ffordd o gofrestru i bleidleisio yn amrywio yn ôl eich sefyllfa. Am ragor o wybodaeth, ewch i **www.fymhleidlaisi.co.uk**

Pwy all sefyll fel Aelod Cynulliad?

Rhaid i ymgeiswyr fod yn 18 oed neu'n hŷn ac yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd un o wledydd y Gymanwlad, Gweriniaeth Iwerddon neu un o aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw rhai pobl yn gymwys i sefyll fel ymgeiswyr, er enghraifft barnwyr, gweision sifil, aelodau o'r lluoedd arfog a'r heddlu a phobl sydd wedi'u penodi i fathau eraill o swyddi cyhoeddus.

Ble y gallaf ddod o hyd i wybodaeth am sefyll fel ymgeisydd ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn paratoi canllawiau ar gyfer ymgeiswyr cyn etholiadau'r Cynulliad. Bydd adran gwasanaethau etholiadol eich awdurdod lleol yn gallu darparu cyngor hefyd.

Ble y gallaf ddod o hyd i restr o ymgeiswyr?

Dylech gysylltu â'ch swyddfa etholiadau lleol i gael gwybod pwy yw'r ymgeiswyr. Bydd eich swyddfa gofrestru etholiadol leol yn arddangos enwau'r holl ymgeiswyr cyn y diwrnod pleidleisio. Fel arfer, mae gwybodaeth hefyd ar gael yn y papurau newydd lleol. Nid oes ffynhonnell swyddogol o wybodaeth am ymgeiswyr, felly dylech ymweld â gwefannau'r ymgeiswyr, gwefannau'r pleidiau neu ysgrifennu at y blaid. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr yn anfon gwybodaeth atoch amdanynt eu hunain ac y cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus lle byddwch yn cael cyfle i glywed yr holl ymgeiswyr yn siarad.

A all Aelodau Seneddol neu Aelodau o Senedd yr UE sefyll fel ymgeiswyr?
Gallant.

Beth yw manteision ac anfanteision y system Aelod ychwanegol?
Mae'r system Aelod ychwanegol yn fath o system bleidleisio hybrid. Yng Nghymru, caiff y cynrychiolwyr etholaethol eu hethol drwy'r system bleidleisio "cyntaf i'r felin" a chaiff cynrychiolwyr rhanbarthol eu hethol drwy gynrychiolaeth gyfrannol. Daw'r unigolion a ddewisir o restrau a baratowyd gan y pleidiau gwleidyddol cyn yr etholiad. Mae hefyd yn bosibl i unigolyn fod yn ymgeisydd dros ranbarth heb gefnogaeth plaid, fel ymgeisydd annibynnol. Mae pob etholwr yn cael dwy bleidlais – un am berson ac un am blaid. Ychwanegir y rhestr o bleidiau i wneud y canlyniadau yn fwy cyfrannol. Mae gan bleidiau bach fantais ddamcaniaethol o ganlyniad i'r system. Nid yw'r system Aelod ychwanegol fel arfer yn arwain at lywodraethau sydd â mwyafrif pendant, ac felly mae llywodraethau clymbleidiol yn gyffredin.

Ble y gallaf ddod o hyd i gopïau o faniffestos etholiadol?
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn wleidyddol niwtral ac felly nid yw'n dosbarthu copïau o'r maniffestos a gaiff eu paratoi gan y pleidiau gwleidyddol. Mae'n bosibl y byddant ar gael ar wefannau'r pleidiau gwleidyddol neu wefannau ymgeiswyr annibynnol. Gallwch ddod o hyd i lincs i wefannau'r holl bleidiau gwleidyddol cofrestredig ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

Diddymu

Beth yw diddymu?

Diddymu yw'r term swyddogol a roddir i ddiwedd Cynulliad. Mae'n digwydd cyn bod yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn digwydd, gan fod yn rhaid i seddau Aelodau'r Cynulliad fod yn wag cyn y gall ymgeiswyr gystadlu amdanynt yn yr etholiad. Yn sgil darpariaethau newydd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, dyma'r tro cyntaf i'r Cynulliad gael ei ddiddymu.

Beth sy'n digwydd pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu?

Pan gaiff y Cynulliad ei "ddiddymu" nid yw bellach yn ddeddfwrfa ddemocrataidd hyd nes bod Cynulliad newydd yn cael ei ethol. Nid oes unrhyw Aelodau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn.

Beth sy'n digwydd i Lywodraeth Cymru pan gaiff etholiad ei gyhoeddi?

Ni fydd y Llywodraeth yn ymddiswyddo pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu; rhaid parhau i ymgymryd â busnes hanfodol a bydd Llywodraeth Cymru'n aros yn eu swyddi hyd nes y cyhoeddir canlyniadau'r etholiad. Caiff Prif Weinidog newydd Cymru ei enwebu gan y Cynulliad ac yna caiff ei benodi gan y Frenhines. Bydd y Prif Weinidog newydd yn cyhoeddi enwau Gweinidogion Cymru yn fuan wedi hynny.

Beth sy'n digwydd yn y Llywodraeth yn ystod y cyfnod diddymu?

Yn ystod y cyfnod hwn, ni all Gweinidogion y Llywodraeth na gweision sifil ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a allai arwain at feirniadaeth bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio at ddibenion pleidiol-wleidyddol neu, yn achos gweision sifil, a allai godi amheuaeth ynghylch eu dideddrwydd gwleidyddol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod gwaith y Llywodraeth yn dod i ben.

Sut y caiff gwaith y pwyllgorau ei effeithio cyn yr etholiad – a fyddant yn peidio â chynnal ymchwiliadau newydd/lansio adroddiadau ac ati a pha waith fyddant yn ei wneud yn ystod y cyfnod diddymu?

Gan fod y pwyllgorau yn gwybod eu bod yn debygol o ddod i ben tua mis Ebrill 2011, byddant yn cynllunio ar gyfer dod â'u gwaith i ben erbyn hynny. Os byddant am gael ymateb gan y Llywodraeth a dadl yn y Cyfarfod Llawn ar ymchwiliad, bydd angen iddynt gyflwyno adroddiad erbyn diwedd mis Ionawr. Gallant barhau i weithio ar ôl hyn, ac efallai y byddant am gyhoeddi neu lansio adroddiadau. Cyn gynted ag y caiff y Cynulliad ei ddiddymu, bydd y pwyllgorau'n dod i ben, ac felly ni allant barhau â'r gwaith.

A fydd y pwyllgorau presennol yn dod i ben?

Cyn gynted ag y caiff y Cynulliad ei ddiddymu, ni fydd unrhyw Aelodau Cynulliad. Gan mai dim ond Aelodau'r Cynulliad sy'n cael bod yn aelodau o bwyllgorau'r Cynulliad, bydd yr holl bwyllgorau'n dod i ben.

A allaf gyflwyno deiseb yn ystod cyfnod diddymu'r Cynulliad?

Caiff deisebau a gyflwynir i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu hystyried gan y Pwyllgor Deisebau. Bydd y Pwyllgor yn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd. Bydd pob pwyllgor yn dod i ben pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu. Felly, ni fydd yn bosibl derbyn deisebau neu e-ddeisebau newydd yn swyddogol tan bod sesiwn y Cynulliad newydd yn dechrau ar ôl yr etholiad.

Beth sy'n digwydd i ddeisebau cyfredol pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu?

Bydd deisebau sydd wedi dechrau ar y broses o gael eu trafod gan y Pwyllgor Deisebau yn y sesiwn bresennol yn parhau i gael eu trafod yn y Cynulliad nesaf. Fodd bynnag, gan na fydd unrhyw bwyllgorau yn bodoli yn ystod y cyfnod diddymu, ni fydd y gwaith o ystyried deisebau yn dechrau tan y penodir pwyllgor newydd.

Beth fydd yn digwydd i fy e-ddeiseb sy'n casglu llofnodion?

Bydd e-ddeisebau a gyflwynir cyn diddymu'r Cynulliad yn aros ar y wefan a gallant barhau i gasglu llofnodion.

Beth fydd yn digwydd i'r ddeddfwriaeth sydd ar waith pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu? (Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol a Mesurau)

Pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu, bydd Aelodau'r Cynulliad yn peidio â bod yn Aelodau ac felly bydd yr holl fusnes sy'n cael ei ystyried ar yr adeg honno yn aros yn anorffenedig. Ar ôl yr etholiad, lle'r Llywodraeth newydd yw penderfynu a yw am barhau i ystyried deddfwriaeth o'r Cynulliad blaenorol.

Bydd Mesurau arfaethedig na fyddant wedi cyrraedd y cyfnod olaf cyn i'r Cynulliad gael ei ddiddymu yn syrthio. Mae Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig hefyd yn syrthio pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu. Nid yw'n briodol cario deddfwriaeth ymlaen o un Cynulliad i'r llall gan y byddai hyn yn golygu bod rhaid i Aelodau Cynulliad newydd gyd-fynd â phenderfyniadau eu rhagflaenyddion.

Bydd Gorchymyn arfaethedig na ddilynwyd gan Orchymyn drafft yn syrthio, ond gallai'r Llywodraeth newydd gyflwyno'r un Gorchymyn yn y Pedwerydd Cynulliad a gallai'r Cynulliad gytuno i hepgor y cyfnod pwyllgorau.

Ar ôl yr etholiad, lle'r Llywodraeth yw penderfynu a yw am barhau i ystyried deddfwriaeth o'r Cynulliad blaenorol.

Beth sy'n digwydd i offerynnau statudol pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu?

Bydd busnes y Llywodraeth yn parhau yn ystod y cyfnod diddymu ac felly gellir parhau i ddrafftio offerynnau statudol. Fodd bynnag, bydd y Cynulliad wedi'i ddiddymu ac felly ni fydd yn bosibl iddo graffu ar offerynnau statudol ac/neu eu cymeradwyo. Felly, rhaid i unrhyw offerynnau statudol nad ydynt wedi cael eu gosod cyn diddymu'r Cynulliad gael eu hystyried gan y Cynulliad newydd yn dilyn yr etholiad.

A all Aelodau'r Cynulliad fynd i'r afael â materion a godwyd gan etholwyr yn ystod y cyfnod diddymu?

Yn swyddogol, nid oes unrhyw Aelodau'r Cynulliad rhwng diddymu'r Cynulliad a chyhoeddi canlyniad yr etholiad (rhai wythnosau yn ddiweddarach). Unwaith y caiff y Cynulliad ei ddiddymu, bydd yr Aelod yn peidio â bod yn Aelod ac ni all ymgymryd ag achosion a gyflwynir gan etholwyr. Os bydd etholwyr yn cysylltu ag ymgeiswyr etholiad yn gofyn am gymorth yn ystod y cyfnod diddymu, gallant ddewis ymgymryd â'r achos, ond ni fyddant yn gwneud hynny fel Aelod Cynulliad.

Beth fydd yn digwydd o ran digwyddiadau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod diddymu?

Nid yw'r Cynulliad yn cael defnyddio ei adnoddau ar gyfer digwyddiadau oni bai eu bod yn berthnasol i'r Cynulliad ac y mae'n rhaid i bob digwyddiad sy'n digwydd yn y Senedd/Pierhead a Thŷ Hywel gael ei noddi gan Aelod Cynulliad. Gan na fydd unrhyw Aelodau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod diddymu, ni fydd yn bosibl i Aelod Cynulliad noddi digwyddiad yn y cyfnod hwnnw. Mae rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau ar ein gwefan: **www.cynulliadcymru.org/gethome/get-events.htm**

Beth fydd staff y Cynulliad yn ei wneud yn ystod y cyfnod diddymu?

Bydd staff y Cynulliad yn parhau i weithio yn ystod y cyfnod diddymu, yn paratoi ar gyfer tymor newydd y Cynulliad yn dilyn yr etholiad. Bydd y paratoadau hyn yn cynnwys croesawu Aelodau, darparu gwybodaeth a gwasanaethau a fydd yn galluogi'r Aelodau i ddechrau gweithio'n effeithiol cyn gynted â phosibl a chynnig rhaglen gynefino gynhwysfawr.

A allaf ymweld â Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn y cyfnod cyn yr etholiad?

Bydd y Senedd, y Pierhead a Thŷ Hywel yn agored i'r cyhoedd yn y ffordd arferol yn ystod y cyfnod diddymu. Cynhelir yr holl ymweliadau a theithiau yn ôl yr arfer, ond ni fydd Aelodau'r Cynulliad yn rhan o'r broses.

Beth sy'n digwydd i'r Grwpiau Trawsbleidiol pan gaiff y Cynulliad ei ddiddymu?

Gall Aelodau sefydlu Grwpiau Trawsbleidiol mewn perthynas ag unrhyw faes pwnc sy'n berthnasol i'r Cynulliad. Rhaid i'r grŵp gynnwys Aelodau o'r tri grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad. Nid grwpiau Cynulliad ffurfiol yw'r Grwpiau Trawsbleidiol ac nid ydynt yn rhwym i Reolau Sefydlog y Cynulliad. Nid oes ganddynt rôl ffurfiol o ran datblygu polisi. Mae'n annhebygol y bydd gweithgareddau'r Grwpiau Trawsbleidiol yn parhau yn ystod y cyfnod diddymu ac, os byddent yn parhau, ni fyddai'r Cynulliad yn darparu unrhyw gymorth/adnoddau iddynt.

Ar ôl yr etholiad

Pryd y bydd yr Aelodau Cynulliad newydd yn tyngu eu llw?

Rhaid i'r Aelodau dyngu'r llw, yn gyhoeddus neu'n breifat, gerbron Clerc y Cynulliad. Gellir gwneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl yr etholiad os yw'r Aelod a'r Clerc yn bresennol.

Pryd y bydd gwaith y pwyllgorau yn ailgychwyn?

Ar ôl yr etholiad, bydd yr Aelodau etholedig yn penderfynu ar y cyd pa bwyllgorau y dylid eu sefydlu. Wedi gwneud hyn, bydd pob plaid wleidyddol yn enwebu Aelodau i ymuno â'r pwyllgorau hynny. Unwaith y bydd gan y pwyllgorau aelodau, gallant ddechrau ar eu gwaith.

Pryd y bydd y Cynulliad yn cyfarfod ar ôl etholiad?

Yn y cyfarfod cyntaf ar ôl etholiad, rhaid i'r Cynulliad ethol Llywydd a Dirprwy Lywydd. Yn 2007, cyfarfu'r Cynulliad ddydd Mercher ar ôl yr etholiad (9 Mai), ond ni chyfarfu'r Cynulliad eto tan 25 Mai oherwydd y trafodaethau am ffurfio clymblaid. Erbyn hynny, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid oedd i'r Cynulliad enwebu Prif Weinidog i'w benodi gan y Frenhines. Os na chaiff Prif Weinidog ei benodi o fewn mis i'r etholiad, rhaid cynnal etholiad arall. Bydd canlyniad etholiad 2011 yn penderfynu pa mor gyflym fydd busnes y Cynulliad yn ailddechrau, ac os na fydd un blaid yn ennill mwyafrif, bydd trafodaethau am ffurfio clymblaid hefyd yn effeithio ar hyn.

Pa mor fuan ar ôl yr etholiad y gallaf gysylltu ag Aelod Cynulliad? Sut y gallaf wneud hyn?

Gallwch gysylltu â'ch Aelod Cynulliad yn syth ar ôl yr etholiad. Ffoniwch 0845 010 5500 neu anfon e-bost at **gwybodaeth@cymru.gov.uk**

Ble y gallaf gael canlyniadau'r etholiad?

Bydd canlyniadau etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gael ar ein gwefan, **www.cynulliadcymru.org**, ar ôl i'r Cynulliad gael gwybod am y canlyniadau gan y swyddog canlyniadau.

A fydd argymhellion yr adroddiad Yn Gywir i Gymru yn cael unrhyw effaith ar yr etholiad?

Mae rhai o'r argymhellion ym Mhapur Gwyn Yn Gywir i Gymru eisoes wedi'u rhoi ar waith, fel y Bwrdd Taliadau, a bydd yr argymhellion eraill yn cael eu rhoi ar waith ar ôl etholiad 2011; er enghraifft, bydd rheolau ynghylch pa Aelodau'r Cynulliad a fydd yn cael ail gartref yng Nghaerdydd yn dod i rym.

Pa mor fuan ar ôl yr etholiad y caiff Llywodraeth ei ffurfio?

Bydd canlyniad yr etholiad yn pennu faint o amser y bydd yn ei gymryd i ffurfio llywodraeth ar ôl yr etholiad a bydd trafodaethau am ffurfio clymblaid hefyd yn effeithio ar hyn os bydd angen trafodaethau o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei ffurfio o'r blaid neu'r pleidiau sydd â'r nifer fwyaf o seddi yn y Cynulliad a chaiff ei harwain gan Brif Weinidog Cymru.

Beth fydd yn digwydd os na fydd mwyafrif clir o un blaid?

Fel yn 2007, gall y pleidiau ddechrau trafodaethau am ffurfio clymblaid. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd y blaid fwyaf yn ceisio llywodraethu fel llywodraeth leiafrifol, fel y gwnaeth Llafur ar ôl etholiad 2003.

Cyflog Aelodau'r Cynulliad

Beth yw cyflog Aelod Cynulliad?

Ceir gwybodaeth am gyflog Aelodau'r Cynulliad, gan gynnwys cyfraddau tâl hanesyddol ers 1998 a dogfennau'n ymwneud â Chynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad, ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys manylion lwfansau Aelodau'r Cynulliad, crynodeb o'r uchafswm y gallant ei hawlio a'r holl reolau sy'n gysylltiedig â hawlio lwfansau. Gall unrhyw un ddefnyddio gwefan y Cynulliad i weld y lwfansau a'r treuliau a hawliwyd gan Aelodau'r Cynulliad. Y Bwrdd Taliadau newydd sy'n penderfynu ar gyflog Aelodau'r Cynulliad.

A fydd Aelodau'r Cynulliad yn cael eu talu yn ystod y cyfnod diddymu?

Bydd Aelodau'r Cynulliad sy'n sefyll i gael eu hail-ethol yn parhau i gael eu talu tan ddyddiad yr etholiad. Os fyddant yn llwyddiannus yn yr etholiad, bydd eu cyflog yn parhau ar ôl y dyddiad hwnnw. Bydd cyflog Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn sefyll i gael eu hail-ethol yn dod i ben ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad.

Beth yw'r trefniadau ariannol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn sefyll i gael eu hail-ethol neu nad ydynt yn cael eu hail-ethol?

Bydd Aelodau'r Cynulliad sy'n sefyll i gael eu hail-ethol ond nad ydynt yn llwyddiannus yn cael eu talu hyd at ddyddiad yr etholiad. Bydd Aelodau'r Cynulliad nad ydynt yn sefyll i gael eu hail-ethol yn cael eu talu hyd at ddyddiad diddymu'r Cynulliad.

Beth fyddai Aelod Cynulliad yn cael ei dalu pe bai'n Aelod Cynulliad ac yn Aelod Seneddol ar yr un pryd?

Gall Aelod Cynulliad a gaiff ei ethol i fod yn Aelod Seneddol (sydd hefyd yn cadw ei sedd yn y Cynulliad) gael cyflog Aelod Seneddol a thraean o gyflog arferol Aelod Cynulliad.

Pleidleisio

Beth sy'n digwydd yn yr orsaf bleidleisio?

Mae pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn syml iawn ac mae cymorth ar gael drwy'r amser. Bydd y clerc pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio yn darparu gwybodaeth am sut i lenwi'ch papur pleidleisio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn **www.fymhleidlaisi.co.uk**

A oes ffordd o bleidleisio heb fynd i orsaf bleidleisio?

Yn y Deyrnas Unedig, gallwch bleidleisio mewn tair gwahanol ffordd. Chi sy'n penderfynu sut i bleidleisio. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mynd i'r orsaf bleidleisio. Fodd bynnag, os nad ydych yn gallu mynd i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad, gallwch wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy (a fydd yn pleidleisio ar eich rhan). Os byddwch yn dewis pleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, bydd eich swyddfa gofrestru etholiadol leol yn rhoi gwybodaeth i chi am sut i lenwi'r papur pleidleisio yn eich pecyn pleidleisio.

A oes darpariaethau arbennig ar gyfer pobl sydd ag anableddau, a phobl nad ydynt yn gallu darllen neu ysgrifennu? Beth yw'r darpariaethau hynny?

Crëwyd y wefan "Fy Mhleidlais i" gan y Comisiwn Etholiadol i ddweud wrth bawb sut i gofrestru i bleidleisio, ynghyd â sut i wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy gael rhywun arall i bleidleisio ar eich rhan (pleidlais drwy ddirprwy). Os ydych yn anabl ac mae angen cymorth arnoch i fynd i'r orsaf bleidleisio, cysylltwch â'ch swyddfa etholiadau leol i gael gwybod pa gymorth sydd ar gael. Gallwch hefyd ofyn i gael cyfaill gyda chi pan fyddwch yn pleidleisio. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: **www.fymhleidlaisi.co.uk**

Beth os wyf yn methu â mynd i'r orsaf bleidleisio?

Crëwyd y wefan 'Fy Mhleidlais i' gan y Comisiwn Etholiadol i ddweud wrth bawb sut i gofrestru i bleidleisio, ynghyd â sut i wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy gael rhywun arall i bleidleisio ar eich rhan (pleidlais drwy ddirprwy). Gallwch wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy ar frys am resymau meddygol tan 17.00 ar ddiwrnod yr etholiad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: **www.fymhleidlaisi.co.uk**

Beth sy'n digwydd pan y mae'r gorsafoedd pleidleisio yn cau?

Caiff y pleidleisiau eu cyfrif ar ôl i'r orsaf bleidleisio gau. Os hoffech wybod beth sy'n digwydd yn eich ardal chi, cysylltwch â'ch swyddfa etholiadau leol.

T 0845 010 5500
www.pleidleisiwch2011.org
www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales